



## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

### **NODYN CYFARWYDDYD ECO-FLEX I OSODWYR**

1. Dylai gosodwyr sydd â diddordeb mewn gweithio yng Nghonwy gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 01492 574192 fel cam cyntaf.
2. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn annog gosodwyr, neu gwmnïau canfasio, i beidio â galw' heibio trigolion yn ddiwahoddiad. Rydym yn mynnu eich bod chi'n cysylltu â deiliaid tŷ dros y ffôn, e-bost, llythyr neu bamffled i ddechrau. Caiff unrhyw gwynion a dderbynnir gan ddeiliaid tŷ yn ymwneud â galw diwahoddiad eu hymchwilio, a gall arwain at y Cyngor yn gwrthod rhoi datganiad.
3. Byddwch yn cyflwyno cais i'r Cyngor ar ran deiliad y tŷ. Sicrhewch nad yw deiliad y tŷ yn cyflwyno'r cais yn uniongyrchol eu hunan.
4. Eglurwch i ddeiliad y tŷ bod ECO-Flex yn gynllun a gaiff ei arwain yn y sector breifat ac y caiff y cyllid ar gyfer gwelliannau ei ddyfarnu gan gwmnïau ynni. Mae'n rhaid rhoi gwybod i ddeiliaid tŷ bod cyfranogiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfyngedig ac nid yw'n gyfrifol am ddarparu'r cyllid, penodi contractwyr, gosod y gwaith na gwirio ansawdd y gwaith sydd wedi'i wneud.
5. Ni ddylid defnyddio unrhyw frandio'r Cyngor, nag awgrymu eich bod chi'n gweithio ar ran y Cyngor, heb gael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor ymlaen llaw.
6. Rhaid i chi adael eich manylion cyswllt â deiliad y tŷ, gan gynnwys enw cyswllt, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost. Rhwch wybod i ddeiliad y tŷ y dylent gysylltu â chi ac nid CBSC os ydynt yn dymuno gwneud unrhyw ymholiadau, gwirio'r cynnydd neu godi unrhyw bryderon.
7. Drwy gymryd rhan yng nghynllun ECO-Flex, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ceisio cefnogi'r aelwydydd hynny sy'n profi tlodi tanwydd ac sy'n agored i niwed o fyw mewn cartref oer. I sicrhau bod y deiliaid tŷ cymwys hynny'n elwa o'r cynllun, rhaid i osodwyr argymhell y seilwaith mwyaf ynni effeithlon a fforddiadwy i ddeiliad y tŷ a'r eiddo, ac nid cynnig y mesurau hynny a fyddai'n rhoi sicrwydd o grant uwch o bosibl.
8. Rhaid i chi roi gwybod i ddeiliaid y tŷ am unrhyw waith a chostau ychwanegol na ellir eu hariannu drwy'r cynllun ECO-Flex, ac egluro iddynt ei fod yn bosibl y byddai'n rhaid iddyn nhw dalu'r costau. Rhaid i ddeiliaid y tŷ fod yn ymwybodol nad yw'n ofynnol iddynt barhau

â'r cynllun os nad ydyn nhw'n credu bod y gwaith gwella yn briodol neu'n fforddiadwy iddyn nhw.

9. Rhaid i'r ffi weinyddol o £100 a TAW (fesul Datganiad) a godir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am ddarparu'r Datganiad gael ei dalu gan y cyflenwr ynni neu eu gosodwr/contractwr. Ni ddylid, dan unrhyw amgylchiadau, basio'r gost hon i'r deiliaid tŷ sy'n derbyn cymorth yn sgil y cynllun hwn.
10. Rhaid talu £120 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy naill ai drwy siec (yn daladwy i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) neu drosglwyddiad BACS. Rhaid i'r taliad gael ei gwblhau yr un pryd ag y caiff y ffurflenni cais eu cyflwyno. Byddwn angen hysbysiad talu wedi'i rifo er mwyn trawsyfeirio'r siec neu daliad BACS yn ôl i'r eiddo unigol yn y ffurflen gais.
11. Defnyddiwch y templed ffurflen gais sydd wedi'i ddarparu ac atodwch logo'r cwmni a'r hysbysiad preifatrwydd yn ôl y cyfarwyddyd.
12. Pan gaiff amryw o ffurflenni cais eu cyflwyno, rhaid cyflwyno taenlen gysylltiedig yn nodi cyfeiriad, cyfeirnod a meini prawf yr eiddo hefyd.
13. Rhaid i bob gosodwr ddarparu enw, manylion cyswllt a rhif PAS 20/30 bob contractwr a gosodwr a fydd yn cwblhau'r gwaith i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
14. Bydd disgwyl i bob gosodwr a chontractwr gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Bydd angen i chi gwblhau gwaith yn unol â gofynion Ofgem a gweithredu'n unol ag arfer gorau'r diwydiant mewn perthynas â gofal y defnyddiwr a safonau ansawdd.
15. Dylid anfon holl ddogfennaeth y cais at;

Ivor Jones, Rheolwr Gwelliannau Tai. E-bost: [ivor.jones@conwy.gov.uk](mailto:ivor.jones@conwy.gov.uk)

Neu

Sian Jones, Syrfëwr Technegol. E-bost: [sian.anwyl.jones@conwy.gov.uk](mailto:sian.anwyl.jones@conwy.gov.uk)

Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn LL29 7AZ